## Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Er ein bod yn cydnabod bod rhai problemau yn bodoli gyda'r trefniadau cyfredol ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, roedd y ddeddfwriaeth ddrafft, yr ymgynghorwyd arni yn 2015, yn peri pryder inni. Nodwn fod rhai o'n pryderon yn cael eu rhannu yn eang gydag eraill[1].

Fel undebau addysg, mae gennym rai pryderon difrifol a rhannwn rhai o'r rhain yn y papur hwn.

### Ariannu

Rhaid ariannu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gywir, ac atal awdurdodau lleol rhag cwtogi ar gyllidebau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rhaid i'r disgrifiad swydd fod yn ymarferol, er mwyn sicrhau recriwtio a chadw staff. Ni ddylai'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol fod yn bennaeth hefyd, ac ym mhob achos dylai fod ganddynt amser digyswllt digonol i ymgymryd â'r rôl.

Ar hyn o bryd, hwyrach nad yw'r rôl o fewn Sefydliad Addysg Bellach yn cael ei chynnal gan athro cymwys, gan hynny rhaid rhoi ystyriaeth i Sefydliadau Addysg Bellach wrth ddrafftio'r Bil.

Rhaid sicrhau hyfforddiant y tu hwnt i HAGA a'r Fargen Newydd ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### Cyrff Llywodraethu

Rhaid i'r brif ddyletswydd ar gyfer cyflenwi darpariaeth dysgu ychwanegol orwedd gyda'r awdurdod lleol. Dylai llywodraethwyr dderbyn mwy o hyfforddiant ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond ni ddylai hyn ddisodli'r angen am gyngor a chefnogaeth arbenigol. Ceisir eglurder hefyd yn ymwneud â'r ddyletswydd ar Sefydliadau Addysg Bellach.

[1] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation-documents/160714-summary-of-responses-draft-additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-bill-cy.pdf

## Darpariaeth Arbenigol

Mae gennym bryderon yn ymwneud â lefel y ddarpariaeth arbenigol a fydd ar gael ac a fydd yn cael ei hariannu o dan y Bil. Er ein bod yn croesawu haeriad Ysgrifennydd y Cabinet:

> “dylai'r holl leoliadau addysg gael mynediad at unigolion gyda sgiliau arbenigol, er enghraifft, seicolegwyr addysgol, athrawon y rhai sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw, a therapi lleferydd."

Byddem yn ceisio sicrwydd bod yn **rhaid** i'r holl leoliadau addysg gael mynediad at arbenigwyr o'r fath. Credwn nad yw "dylai" yn ddigon cryf yn y cyd-destun hwn.

Byddem yn nodi hefyd bod yn rhaid i hyfforddiant ar gyfer staff ar Anghenion Dysgu Ychwanegol fod yn ehangach na'r hynny a gynigir gan y Fargen Newydd neu HAGA - a chynnwys y rheini o fewn Sefydliadau Addysg Bellach a rolau staff cymorth.

## Adran 29: Ffafrio ysgolion prif ffrwd

Rydym yn pryderu am y geiriad yn nhermau'r unigolyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddwn yn ceisio eglurder y bydd yr awdurdod lleol yn gosod anghenion y plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a'r lleoliad mwyaf priodol ar eu cyfer, wrth galon eu penderfyniadau, ac y bydd y ddyletswydd yn gorwedd ar yr awdurdod lleol i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn cael ei bodloni.

Rhaid i'r ddyletswydd hon gynnwys darpariaeth ar gyfer lleoliadau preswyl arbenigol, pe bai hynny er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

## Asesiad

Mae'r broses asesu yn aneglur. Rhaid asesu potensial **unigol** y plentyn gan gynnwys pa gefnogaeth y gellir ei darparu i'w helpu i fodloni'r potensial hwnnw, a pha leoliad sydd fwyaf priodol.

Byddem yn ceisio eglurder ar ddiffiniad 'difrifol a chymhleth' ac ar bwy fyddai'n rhan o bennu'r achosion hyn. Rhaid cynnwys ymarferwyr iechyd priodol, yn ddelfrydol y rheini sy'n adnabod y plentyn yn barod.

## Y cynllun datblygu unigol

Rhaid darparu templed Cymru gyfan yn y Cod i sicrhau’r hygludedd uchaf ac i sicrhau cysondeb ynghylch lefel y wybodaeth sy'n ofynnol. Gall y templed gynnig hyblygrwydd i gynnwys gwybodaeth berthnasol ychwanegol, ond mae angen safon ofynnol. Rhaid gallu gorfodi'r Cynllun Datblygu Unigol yn gyfreithlon ar lefel awdurdod lleol. Rhaid ymgymryd

â'r Cynllun Datblygu Unigol a'i adolygu yn amserol, gyda mewnbwn gan y pennaeth/pennaeth blwyddyn/cyfarwyddwr astudiaethau ynghyd â gwybodaeth gan **bob** asiantaeth sy'n gysylltiedig.

### Pontio

Mae trefniadau ar gyfer pontio rhwng cyfnodau allweddol a lleoliadau yn allweddol i bobl ifanc dderbyn y gefnogaeth gywir, yn yr un modd â'r cynllun pan fyddant yn cyrraedd 25. Dylai'r cynllunio ddechrau o leiaf 6 mis cyn unrhyw gyfnod pontio os yw'n bosibl. Dylid cael darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd allweddol o ran pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd/ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach/ysgolion neu Sefydliadau Addysg Bellach a phrifysgol ynghyd ag ysgolion arbennig neu Unedau Cyfeirio Disgyblion i sicrhau bod Darpariaeth Dysgu Ychwanegol yn cael ei bodloni.

### Trafnidiaeth

Dylid ystyried trefniadau trafnidiaeth awdurdod lleol o dan y Cynllun Datblygu Unigol. Serch hynny, byddem yn pwysleisio bod yn **rhaid** i'r awdurdod lleol ble mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw fod yn gyfrifol am gyflenwi trafnidiaeth i'r lleoliad mwyaf priodol.

### Iechyd a Chydweithio

Rhaid rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau eu bod yn gysylltiedig â chynllunio neu ddarparu Anghenion Dysgu Ychwanegol, os yw anghenion iechyd y plentyn neu berson ifanc yn effeithio ar eu mynediad at addysg. Nid yw ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yn arbenigwyr iechyd a chan hynny nid ydynt mewn sefyllfa i benderfynu ar anghenion gofal iechyd y plentyn neu'r person ifanc.

Byddai gennym ddisgwyliadau hefyd bod cydweithio yn cynnwys rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau eraill megis y rheini sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol ac unedau cyfeirio disgyblion.

### Anghenion Cyfathrebu

Rhaid rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol sydd, yn ychwanegol at y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg, yn sicrhau y gellir cynnal pob cam o'r broses (o'r wybodaeth gyffredinol i'r tribiwnlys) yn y ffordd fwyaf priodol i'r plentyn neu'r person ifanc a'u teuluoedd - gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg, a mynediad at wybodaeth Braille neu ddehonglydd  BSL os oes angen.

## Cymwysterau ac arholiadau

Dylai'r bwrdd arholi a'r rheoleiddiwr cymwysterau priodol fod yn gyfrifol am  sicrhau bod adnoddau ar gyfer cymwysterau ac arholiadau yn hygyrch i blentyn neu berson ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol - neu yn wir Llywodraeth Cymru ar gyfer profion. Byddem yn ceisio osgoi unrhyw sefyllfa ble y mae person ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o dan anfantais[2].

## Sefydliadau Addysg Bellach

Rydym eisoes wedi crybwyll rhai materion penodol, serch hynny, mae Sefydliadau Addysg Bellach yn gorfforaethau, a byddem yn ceisio eglurder ar sut y bydd y Bil hwn yn gymwys iddynt. Byddem hefyd yn pryderu am gyflenwad Darpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer y rheini sy'n ymgymryd â dysgu yn y gweithle a sut y bydd yr ystod oed yn gweithio o fewn cyd-destun Addysg Bellach - gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n dymuno ymgymryd â dysgu i oedolion ac yn y gymuned.

## Tribiwnlysoedd

Rydym yn derbyn yr angen am ymrwymiad i ddatrys gwrthdaro cyn mynd i dribiwnlys. Byddem yn dymuno osgoi anghydfodau ble bynnag mae hynny'n bosibl.

Serch hynny, mae gennym rai pryderon ynglŷn â'r cyfnod maith posibl y byddai system o'r fath yn ei hychwanegu at broses, yn enwedig os yw achos o'r fath yn arwain at dribiwnlys yn y pendraw. Nid yw'r oedi posibl er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc.

Gallai unrhyw oedi yn y broses gael ei ddwysau hefyd trwy ehangu'r hawl i apelio i dribiwnlys, a allai yn ddigon posibl arwain at geisiadau cynyddol am dribiwnlysoedd. Gallai'r potensial ar gyfer cynyddu nifer y tribiwnlysoedd godi hefyd o ganlyniad i ddiffyg eglurder yn ymwneud â chyfrifoldebau - yn enwedig rhwng cyrff llywodraethu ysgol ac awdurdodau lleol.

Dylai'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i gefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol ganolbwyntio ar y ddarpariaeth orau ac nid ar broses anghydfod, apêl a thribiwnlys sydd â'r potensial i fod yn faith ac yn gostus.

Ymddengys mai'r potensial mwyaf ar gyfer gwrthdaro yw'r diffyg eglurder ar rôl yr awdurdod lleol a rôl y corff llywodraethu wrth gyflenwi Darpariaeth Dysgu Ychwanegol. Mae angen gwell diffiniad, ac fel yr

[2] http://www.walesonline.co.uk/news/education/exam-board-told-visually-impaired-11223658

ydym eisoes wedi'i nodi, dylai'r ddyletswydd i gyflenwi Darpariaeth Dysgu Ychwanegol orwedd yn bennaf gyda'r awdurdod lleol.

Serch hynny, mae pryderon mwy sylfaenol yn canolbwyntio ar yr adran a ganlyn o'r bil drafft 14 (7):

> *'Os yw Tribiwnlys Addysg Cymru yn gorchymyn diwygio cynllun datblygu unigol mewn perthynas â darpariaeth dysgu ychwanegol a nodir mewn cynllun o dan yr adran hon fel darpariaeth y mae Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG wedi cytuno i'w sicrhau,* ***nid oes gofyn i Fwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG sicrhau'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol diwygiedig*** *oni bai bod y Bwrdd neu'r ymddiriedolaeth yn cytuno i wneud hynny.'*[3]

Mae'r uchod yn awgrymu hyd yn oed os oes cytundeb i ddiwygio darpariaeth benodol cysylltiedig ag iechyd mewn tribiwnlys, nid oes gan y tribiwnlys unrhyw rym i orfodi Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG i ddiwygio'r ddarpariaeth iechyd.

Nid yw hyn er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc ac yn aml iawn bydd y ddyletswydd yn disgyn ar y lleoliadau addysgol i geisio darparu'r ddarpariaeth briodol cysylltiedig ag iechyd - nid y bwrdd iechyd na'r ymddiriedolaeth GIG.

## Manylion cyswllt

Os hoffech chi gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau pellach, anfonwch e-bost at:


Mary van den Heuvel, ATL Cymru, mvandenheuvel@atl.org.uk

Rob Williams, NAHT Cymru, Rob.Williams@naht.org.uk

Rebecca Williams, UCAC, Rebecca@ucac.cymru

Lisa Edwards, UCU, LEdwards@ucu.org.uk


[3] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation-documents/150703-draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill-w.pdf